

2021 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 a
Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa
Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn
Coed, Merthyr Tudful) (Gwahardd
Cerbydau a Beicwyr Dros Dro)
2021

Gwnaed

4 Mehefin 2021

Yn dod i rym

7 Mehefin 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M4 a'r darnau o gefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mehefin 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2021 No. (W.)

ROAD TRAFFIC WALES

The M4 Motorway & A470 Trunk Road (Coryton Interchange, Cardiff to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2021

Made

4 June 2021

Coming into force

7 June 2021

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the M4 motorway and the lengths of the A470 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway and trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the roads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the M4 Motorway & A470 Trunk Road (Coryton Interchange, Cardiff to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2021 and this Order comes into force on 7 June 2021.

Interpretation

2. In this Order—

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 7 Mehefin 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru ac “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r draffordd a’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r draffordd a’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwysyo

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

4 Mehefin 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“cerbyd esempt”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales motorway and “the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 on 7 June 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the motorway and trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the motorway and trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

4 June 2021



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darnau o ffyrdd ymadael neilltuedig tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 32 (Coryton) sy'n arwain at yr A470 tua'r gogledd.

Y darn o gefnffordd yr A470, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael o Gyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful.

Ffordd gyswllt neilltuedig yr A470 o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coryton i'w chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A470.

SCHEDULE

The lengths of the eastbound and westbound dedicated exit slip lanes of the motorway at Junction 32 (Coryton) leading to the northbound A470.

The length of the A470 trunk road, including all entry and exit slip roads, from Coryton Interchange, Cardiff to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil.

The dedicated A470 link road from its junction with the main circulatory carriageway of Coryton Interchange to its junction with the main southbound carriageway of the A470 trunk road.